

Adroddiad yr Arweinydd

1. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif ddigwyddiadau a datblygiadau ers i mi ddod yn arweinydd y Gylchdaith ar 1/1/17

Cyfarfodydd Cyngor y Bar / cyfarfodydd pwysig eraill

2. Rwyf wedi mynd i nifer o gyfarfodydd ar ran y Gylchdaith, gweler Atodiad A am ragor o fanylion

Cynrychioli'r Gylchdaith

3. Rwyf wedi cynrychioli'r Gylchdaith mewn sawl digwyddiad, gweler Atodiad B am ragor o fanylion

Newidiadau i 'dîm' y Gylchdaith

4. Collodd pwyllgor rheoli'r Gylchdaith Janet Gedrych (Angel) a Nia Gowman (30PP) tua diwedd 2017 ar ôl iddynt ymddeol. Diolch yn fawr iawn iddynt am eu cyfraniad. Ar ôl cael eu henwebu (ond nid eu hethol) ymunodd David Elias CF (9PP) a Catrin Jenkins (Angel) â'r pwyllgor.
5. Ymddeolodd David Harris (Iscoed) o'i rôl fel swyddog etholiadau'r Gylchdaith ar ddiwedd 2017. Diolch yn fawr iawn iddo am ei holl waith dros y blynyddoedd. Cymerwyd ei le gan Ben Blakemore (Iscoed)
6. Ymddeolodd Ian Wright (Iscoed) o'i swydd fel bargyfreithiwr ieuaf Abertawe yn 2017. Diolch yn fawr iawn iddo am ei gyfraniad dros sawl blwyddyn). Penodais Dominic Boothroyd (Angel) yn olynydd iddo.
7. Mae Caroline Rees CF (9PP) yn parhau fel 'bargyfreithiwr ieuaf' Caerdydd am y tro. Ar ôl iddi gael ei phenodi'n sidanwr, byddaf yn penodi rhywun yn ei lle yn fuan.

Gweinyddwr y Gylchdaith

8. Fel y gwyddoch ymddiswyddodd Dee Baily o'i swydd fel gweinyddwr yn ystod gwanwyn 2017.
9. Yn dilyn proses recriwtio agored, penodwyd Abi Hobson yn weinyddwr, ar gontract cyfnod penodol o flwyddyn i ddechrau, ym mis Mehefin 2017.
10. Fodd bynnag, mae aelodau pwyllgor rheoli'r Gylchdaith ac aelodau eraill y Gylchdaith wedi'u plesio'n fawr gan y ffordd y mae Abi wedi ymsefydlu yn y rôl ac mae wedi gwneud cryn argraff arnynt.
11. Yn ddiweddar, derbyniodd Abi gynnig y Gylchdaith i wneud ei chontract cyflogaeth yn un parhaol.

Cyllid

12. Gweler yr adroddiad ar wahân gan Rhodri Williams CF (30PP) Trysorydd y Gylchdaith

Addysg / Hyfforddiant

13. Gweler yr adroddiad ar wahân gan Heath Edwards (9PP) y Cyfarwyddwr Addysg

AGFS

14. Mae'r Cynllun Ffioedd Graddedig Adfocadau ("AGFS") newydd ar gyfer ymarferwyr troseddol bellach yn weithredol.
15. Cynhaliodd y CBA arolwg o'i haelodau ym mis Mawrth mewn perthynas â'r AGFS newydd. Yn sgil canlyniad yr arolwg galwodd y CBA am weithredu mewn perthynas â'r cynllun newydd. Yn benodol, galwodd y CBA ar ei haelodau i wrthod derbyn briffiau â thystysgrifau cymorth cyfreithiol dyddiedig ar ôl 1/4/18.

16. Gyda nifer fach iawn o eithriadau, mae aelodau'r Gylchdaith wedi penderfynu'n unigol gefnogi'r alwad i weithredu. Mae'n bosibl y caiff camau pellach eu cymryd

Digwyddiadau Cymdeithasol / Ciniawau

17. Rhoddir manylion digwyddiadau cymdeithasol/ciniawau'r Gylchdaith a gynhaliwyd ers 1/1//17 yn Atodiad C.
18. Gobeithio y caiff digwyddiad cymdeithasol anffurfiol ei drefnu'n fuan ym mhob un o dair canolfan y Gylchdaith.
19. Criced y Gylchdaith: Mae'n bleser gennyf gyhoeddi (ar wahân i rai canlyniadau personol braidd yn drychinebus) fod tymor criced y llynedd yn un 'llwyddiannus'. Cymerodd y Gylchdaith ran mewn cystadleuaeth wych gyda Chylchdaith y Gorllewin fis Gorffennaf diwethaf.

Ymweliad Cadeiryddion y Bar

- 20.** Cynhaliodd y Gylchdaith ymweliadau llwyddiannus gan Andrew Langdon CF (Cadeirydd y Bar 2017) ac Andrew Walker CF (Cadeirydd y Bar 2018) y naill yn 2017 a'r llall yn 2018 â Chaerdydd ac Abertawe.
- 21.** Dilynodd pob ymweliad yr un patrwm. Ymwelodd y Cadeiryddion â 9PP, 30PP, Apex a Civitas yng Nghaerdydd ar y diwrnod cyntaf a siambrau Pendragon, Angel ac Iscoed yn Abertawe ar yr ail ddiwrnod. Cynhaliwyd cyfarfodydd hefyd yn yr ystafell wisgo yn Llysoedd y Goron Caerdydd ac Abertawe yn y naill flwyddyn a'r llall.
- 22.** Roedd y Cadeiryddion a'u priod bartion hefyd yn westeion y Gylchdaith ar noson gyntaf eu hymweliadau lle roedd pob un o'r siambrau ar y Gylchdaith wedi'u cynrychioli.
- 23.** Roedd Andrew Walker CF eisoes wedi ymweld â Chaer cyn ei ymweliad â De Cymru.

Gwefan y Gylchdaith

24. Mae gwefan y Gylchdaith wedi'i hailwampio. Mae bellach ffrwd Twitter wych, y gellir ei phriodoli i Abi.

25. Rydym wedi ychwanegu adran 'llyfrgell' at y wefan er mwyn i aelodau gyhoeddi erthyglau ar achosion anarferol diweddar/datblygiadau o ran y gyfraith ac ati (gyda dolenni i'r aelodau perthnasol a'u siambrau). Deilliodd hyn o awgrym a wnaed mewn cyfarfod o Grŵp De-orllewin Cymru o awdurdodau lleol. Rwy'n annog aelodau i gyflwyno erthyglau i Abi er mwyn iddi eu cyhoeddi ar y wefan.
26. Caiff y cyfleuster llyfrgell hwn ei ddefnyddio hefyd i gyhoeddi deunydd hyfforddi yn y dyfodol.

Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Gylchdaith

27. Mae'r pwyllgor rheoli wedi cymeradwyo logo newydd ar gyfer y Gylchdaith, sydd bellach yn cael ei ddefnyddio ar y wefan a phob gohebiaeth gan y Gylchdaith.
28. Mae'r pwyllgor rheoli hefyd wedi cymeradwyo deunydd hyrwyddo newydd i'w ddefnyddio gan y Gylchdaith i (a) codi proffil y Gylchdaith yn gyffredinol a (b) hyrwyddo'r amrywiaeth eang o wasanaethau a gynigir gan aelodau'r Gylchdaith.

Llywodraeth Cymru / Defnyddio aelodau'r Gylchdaith

29. Yn dilyn nifer o gwynion gan aelodau, ysgrifennodd Paul Lewis CF a minnau lythyr ar y cyd ar droad 2016/7 at Mick Antoniw AS, sef Cwnsler Cyffredinol Cymru ar y pryd), yn mynegi ein siom nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cyfarwyddo unrhyw aelod o'r Gylchdaith fel rhan o'i thîm i'w chynrychioli yng ngwrandawiadau 'Brexit'.
30. Cefais ymateb o sylwedd a oedd yn ceisio cyfiawnhau'r dewis ar sail yr angen am arbenigedd penodol a phrinder amser, ond a oedd yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn fodlon defnyddio bargyfreithwyr o'r Gylchdaith. Awgrymwyd hefyd y byddai cystadleuaeth yn ddiweddarach yn y flwyddyn i benodi rhagor o fargyfreithwyr i banel adfocadau Llywodraeth Cymru.
31. Ar ôl hynny mabwysiadais ddull ychydig yn fwy cymodlon drwy ei wahodd ef a Jeff Godfrey (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth

Cymru) i ddod i Ginio'r Gylchdaith ym mis Mai 2017. Daeth y ddau ohonynt i'r cinio a sefydlwyd cydberthynas gymharol dda. Cyflwynodd Jeff Godfrey seminar fel rhan o'n cyfres o seminarau Nos Iau.

32. Cadwais mewn cysylltiad â Mick Antoniw nes i rywun arall gael ei benodi'n annisgwyl yn ei le yn ddiweddarach yn ystod 2017.
33. Mae'n bleser gennyf nodi bod y Gylchdaith wedi sefydlu cydberthynas dda iawn â'i olynydd, Jeremy Miles AM. Daeth i ginio'r Gylchdaith fel ein gwestai ym mis Ionawr 2018. Yn ddiweddarach aeth Rhodri Williams CF, Jonathan Rees a minnau i gyfarfod gydag ef a'i swyddogion ym mis Chwefror 2018. Cefais gyfarfod dilynol pellach gydag ef ym mis Ebrill.
34. Ymddengys ei fod yn awyddus iawn i gefnogi'r proffesiwn yng Nghymru. Mae wedi ysgrifennu at sefydliad Cwnsleriaid y Frenhines ar ein cais yn mynegi'r farn y dylai'r sefydliad hwnnw ystyried yr angen i sicrhau bod rhai ymgeiswyr yn gwybod am gyfraith Cymru.
35. Cynhaliwyd cystadleuaeth aelodau newydd i Banel Llywodraeth Cymru o Adfocadau Cymeradwy yn 2017. Ychwanegwyd chwe aelod arall o'r Gylchdaith at y Panel.

Ymgysylltu â Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS)

36. Es i'm paneli graddio CPS cyntaf cyn cymryd yr awenau fel arweinydd ar ddiwedd 2016.
37. Cynhaliais fy nghyfarfod blynyddol cyntaf â Karen Dixon, Uwch Erlynydd y Goron ar gyfer Gogledd Cymru, yn yr Wyddgrug ym mis Chwefror 2017. Cynhaliwyd yr ail gyfarfod yn yr Wyddgrug ym mis Chwefror 2018.
38. Cefais gyfarfod â Deborah Rogers (CPS Abertawe) ar 20/4/17 ynghylch eu defnydd o fargyfreithiwr nad oedd yn un o fargyfreithwyr y Gylchdaith mewn achos yn ymwneud â chreulondeb i blant. Fe'm sicrhawyd bod yr amgylchiadau a oedd yn ymwneud â'r achos yn rhai eithriadol a bod defnyddio bargyfreithwyr o'r Gylchdaith yn dal i fod yn flaenoriaeth i'r CPS.
39. Wedyn bu'n rhaid i mi gynnal ymchwiliad tebyg i'r swyddfa yng Nghaerdydd mewn perthynas ag achos arall.

40. Es i gyfarfod 'CALC' gyda Phrif Erlynydd dros dro Cymru a swyddogion eraill o'r CPS ar 5/6/17
41. Cynrychiolodd David Elias CF y Gylchdaith yng nghyfarfod panel graddio CPS yn 2017. Yn y dyfodol byddaf yn cymryd rhan mewn unrhyw apeliadau gan y panel.
42. Es i gyfarfod 'CJAC' gyda Phrif Erlynydd newydd y Goron dros Gymru ym mis Rhagfyr 2017.

Ymarferion Ymgynghori

43. Mae'r Gylchdaith wedi cyflwyno ymateb i'r ymarferion ymgynghori canlynol:
- i) Adolygiad BSB o addysg gyfreithiol alwedigaethol;
 - ii) Cynllun AGFS;
 - iii) Adolygiad Jackson o gostau;
 - iv) Adolygiad GLS o baneli rhanbarthol

Comisiwn yr Arglwydd Thomas ar Gyfiawnder yng Nghymru

44. Gwahoddodd yr Arglwydd Thomas y Gylchdaith i gyfrannu tystiolaeth i'w Gomisiwn ym mis Ionawr. Gofynnodd iddo gyflwyno papur amlinellol o fewn cyfnod byr iawn o amser.
45. Sefydlaes weithgor i lunio cyflwyniad drafft i'r Comisiwn. Fel rhan o'r ymarfer, cynhaliodd y gweithgor ymweliad canfod ffeithiau â Belfast. Dechreuodd ar 11/1/18 a pharodd am ddau ddiwrnod. Roedd y parti yn cynnwys Rhodri Williams CF, Jonathan Rees, Ben Blakemore, Abi a minnau. Roedd yn ymweliad hynod o ddefnyddiol.
46. Mae cyflwyniad arfaethedig y Gylchdaith wedi'i amgáu gyda'r adroddiad i'w ystyried yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol

Cynlluniau Mentora JAC

47. Mae'r Gylchdaith wedi sefydlu gwasanaeth mentora anffurfiol a chyfrinachol i aelodau'r Gylchdaith sy'n bwriadu gwneud cais am

benodiadau barnwrol rhan amser. Mae Abi wedi cael adborth ffafriol iawn. Mae'n bleser gennyf gadarnhau bod pob aelod o'r Gylchdaith a benodwyd yn Gofiaduron yn ddiweddar wedi cytuno i ymuno â'r panel.

48. Cysylltwch ag Abi os oes gennych ddiddordeb mewn manteisio ar y gwasanaeth hwn.

Cynllun Mentora Merched

49. Mae pwyllgor rheoli'r Gylchdaith wedi cymeradwyo arian i sefydlu cynllun mentora Merched y Gylchdaith, y bwriedir iddo gadw merched yn y Bar, sy'n seiliedig ar fodel Cylchdaith y Gorllewin.

50. Mae Caroline Rees CF wedi cytuno i arwain y fenter hon. Bydd rhagor o fanylion ar gael yn fuan.

Llesiant / Oriau Gweithredu Llysoedd

51. Mae'r Gylchdaith wedi ceisio hyrwyddo agenda Llesiant y Bar. Ar hyn o bryd rwy'n ymdrin â mater sy'n ymwneud ag oriau gweithredu llysoedd yng Ngogledd Cymru (sydd wedi'i roi o'r neilltu am y tro oherwydd AGFS)

52. Cysylltwch â mi neu uwch aelodau eraill o bwylgor rheoli'r Gylchdaith os oes gennych unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â llesiant.

Cyfleoedd Prynu Grŵp / Cyfunol

53. Mae'r Gylchdaith yn ymchwilio i'r posibilrwydd o sicrhau arbedion effeithlonrwydd posibl i siambrau'r Gylchdaith gan ddefnyddio gwasanaethau prynu grŵp (e.e. cyfleusterau llyfrgell, aelodau o gynlluniau iechyd preifat, yswiriant diogelu data). Bydd rhagor o fanylion ar gael yn fuan

Yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd ym mis Awst 2018

54. Cefnogodd y Gylchdaith ginio i godi arian i'r Eisteddfod ar 20/4/18 yr oedd tua 50 o aelodau'r Gylchdaith yn bresennol ynddo.

55. Mae tua 12 o aelodau'r Gylchdaith wedi cytuno i gymryd rhan mewn treialon ffug yn Gymraeg mewn digwyddiad agored a gynhelir ar y cyd gan

Wasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd Ei Mawrhydi (HMCTS) / y Gylchdaith / Cymdeithas y Cyfreithwyr yn Llys y Goron Caerdydd yn ystod 10 diwrnod yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd ym mis Awst eleni. Bydd gan y Gylchdaith stondin hefyd yn y digwyddiad gyda deunydd hyrwyddo'r Gylchdaith.

56. Gobeithio y bydd hyn yn nodi dechrau cydberthynas newydd i'r Gylchdaith.

Penodi Cofiaduron

57. Daeth cystadleuaeth Cofiaduron 2017, a feirniadwyd yn hallt, i ben yn y pen draw tua diwedd y flwyddyn ddiwethaf. Penodwyd pum aelod o'r Gylchdaith yn Gofiaduron (mae tri wedi'u pennu i Gymru/dau i Gylchdaith y Gogledd). Rwyf wedi anfon llongyfarchiadau atynt ar ran y Gylchdaith.

58. Mae pob un o'r tri Chofiadur troseddol newydd a bennwyd i Gymru yn aelodau o'r Gylchdaith. Yn anffodus, nid oes yr un o'r tri Chofiadur Teuluol yn aelodau o'r Gylchdaith (ac ymddengys nad oes gan ddau o'r tri unrhyw gysylltiadau â Chymru o gwbl)

Aelodau'r Gylchdaith / Rhestr yr Aelodau

59. Mae Abi bron â chwblhau rhestr wedi'i diweddarau o aelodau'r Gylchdaith. Bydd y Gylchdaith yn rhoi copïau wedi'u fframio i Wasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd Ei Mawrhydi sydd wedi cytuno i arddangos copi yn yr ystafell wisgo ym mhob un o Lysoedd y Goron a phob prif Ganolfan Cyfiawnder Sifil sydd ar y Gylchdaith.

60. Mae pwyllgor rheoli'r Gylchdaith wedi cymeradwyo sefydlu categori 'aelodau wedi ymddeol' o aelodaeth y Gylchdaith. Fodd bynnag, mae hyn yn gofyn am ddiwygio cyfansoddiad y Gylchdaith mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol er mwyn darparu ar gyfer ethol aelodau wedi ymddeol mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol neu gyfarfod o bwyllgor rheoli'r Gylchdaith.

61. Hoffai pwyllgor rheoli'r Gylchdaith hefyd gadarnhau bod darpariaeth wedi'i gwneud ar gyfer aelodau "anrhydeddus" o'r Gylchdaith. Rydym ar ddeall bod gennym o leiaf un aelod anrhydeddus eisoes (Yr Arglwydd Judge). Fodd bynnag, ymddengys fod y ddarpariaeth hon yn gofyn am ddiwygio cyfansoddiad y Gylchdaith mewn Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol er mwyn darparu ar gyfer cynnal etholiad mewn Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol neu gyfarfod o bwyllgor rheoli'r Gylchdaith.
62. Os caiff y ddarpariaeth anrhydeddus hon ei chymeradwyo, mae pwyllgor rheoli'r Gylchdaith wedi gwahodd y Cyfreithiwr Cyffredinol yn amodol ar gymeradwyaeth. Hoffwn hefyd weld y Gylchdaith yn gwahodd yr Arglwydd Thomas a Carwyn Jones i ddod yn aelod au anrhydeddus. Croesewir rhagor o awgrymiadau hefyd.

PHQC

ATODIAD A

Mae presenoldeb mewn cyfarfodydd rheolaidd/cyfarfodydd eraill ar ran y Gylchdaith fel a ganlyn:

1. Cyfarfodydd Cyngor y Bar (gyda Rhodri a Chris Rees) bob 6 i 8 wythnos yn Llundain;
2. Y rhan fwyaf o gyfarfodydd pwyllgor rheoli Cyngor y Bar a gynhelir bob 3 wythnos (drwy gyswllt fideo);
3. Cyfarfodydd arweinwyr y Bar/grŵp y Weinyddiaeth Gyfiawnder (rhai yn bersonol/rhai eraill drwy gyfleuster galwadau cynadledda);
4. Gwahanol gyfarfodydd drwy gyswllt fideo/dros y ffôn gyda Fulford AU a Burnett AU (fel yr oedd ar y pryd) mewn perthynas â'r gystadleuaeth Cofiaduron yn 2017;
5. Gwahanol gyfarfodydd yn 2017 gyda Nicola Davies U fel yr uwch swyddog llywyddu/sawl cyfarfod anffurfiol gyda Lewis a Picken UU;
6. Donna Mulhern, arweinydd y grŵp cymorth barnwrol a rheolwr Ystad y Goron yng Nghymru, ar 5/7/17;
7. Cyfarfod Pwyllgor Sefydlog Yr Arglwydd Ganghellor ar yr Iaith Gymraeg yn y System Gyfiawnder yng Nghaerdydd ar 8/11/17;
8. Cyfarfod rhwng arweinwyr y Bar a'r Arglwydd Brif Ustus a Syr Brian Leveson yn y Llysoedd Barn Brenhinol ar 28/11/17;
9. Cyfarfod o'r Gylchdaith yng Nghaerdydd (a thrwy gyswllt ag Abertawe a Chaer) â chynrychiolydd o bwyllgor gweithredol CBA (parthed AGFS) ar 26/3/18;
10. Cyfarfod o'r Gylchdaith a oedd yn cynnwys Penaethiaid Siambrau/Penaethiaid timau troseddol (Parthed AGFS) ar 4/4//18;
11. Cyfarfod rhwng arweinwyr y Bar a'r Uwch Farnwr Llywyddol (Macur AU) ynghylch AGFS drwy gyfleuster galwadau cynadledda ar 11/4/18;
12. Cyfarfod gyda 'QC.Org' ar 02/05/18;
13. Cyfarfodydd 'AGFS' gyda tim 'Moj' a Macur L.J ar 02/05/18

ATODIAD B

Cynrychiolais y Gylchdaith yn y canlynol :

1. Seremoni ffarwelio ag E.A.B Seys-Llewelyn CF Barnwr Sifil Dynodedig Cymru a oedd yn ymddeol;
2. Seremoni groesawu E.A.B Harrison Barnwr Sifil Dynodedig newydd Cymru;
3. Llys Prifysgol Abertawe;
4. Y derbyniad a'r cinio (gyda Heath Edwards a Marian Lewis) a gynhaliwyd gan Goleg Adfocatiaeth Ysbytyau'r Brawdlys yng Nghaerdydd ym mis Chwefror 2017;
5. Rownd derfynol cystadleuaeth ffug dreial ysgolion genedlaethol y Sefydliad Dinasyddiaeth yn y Llysoedd Barn Brenhinol ym mis Mawrth 2017 a (gyda Jonathan Rees) yn Llys y Goron Caerdydd ym mis Mawrth 2018;
6. Y seremoni cymryd llw ar gyfer Hickinbottom AU yn y Llys Apêl;
7. Cinio Cymdeithas Cyfreithwyr Caerdydd ar 12/5/17;
8. Oherwydd fy anaf, yn anffodus ni fu'n bosibl i mi gynrychioli'r Gylchdaith yn seremoni agoriadol y Llys Busnes ac Eiddo yng Nghymru yng Nghanolfan Cyfiawnder Sifil Caerdydd ar 24/7/17. Fodd bynnag, roedd Rhodri Williams CF yn gallu cynrychioli'r Gylchdaith;
9. Angladd ac, yn ddiweddarach, seremoni ffarwelio Martyn Kelly;
10. Cynhadledd Cymru'r Gyfraith (gyda Rhodri Williams CF) ar 15/9/17;
11. Cinio a gynhaliwyd gan Gylchdaith Canolbarth Lloegr yn Ysbyty Gray ar 15/9/17;
12. Y seremoni ffarwelio ac, yn ddiweddarach, y seremoni goffa ar gyfer Syr Christopher Pitchford;
13. Y cinio ymddeol (gydag aelod arall o bwyllgor rheoli'r Gylchdaith) yn y Senedd ar gyfer yr Arglwydd Thomas ar 27/10/17;

14. Derbyniad a chinio rhyngwladol blynyddol Cyngor y Bar/Cymdeithas y Cyfreithwyr ar 1/10/17;
15. Seremoni cymryd llw'r Arglwydd Brif Ustus ar 2/10/17;
16. Y gwasanaeth blynyddol yn Abaty Westminster i nodi dechrau'r flwyddyn gyfreithiol a brecwast yr Arglwydd Ganghellor ar 2/10/17;
17. Y gwasanaeth blynyddol (gydag aelodau eraill o bwyllgor rheoli'r Gylchdaith) i nodi dechrau'r flwyddyn gyfreithiol ar y Gylchdaith yn Eglwys Gadeiriol Llandaf ar 8/10/17;
18. Cynhadledd Flynyddol y Bar (gyda Rhodri Williams CF a Ben Blakemore) ar 4/11/17;
19. Y derbyniad ar gyfer y Llys Apêl yng Nghaerdydd ar 7/11/17;
20. Yr ymweliad â Belfast (gydag aelodau eraill o'r gweithgor ar Gomisiwn yr Arglwydd Thomas) ar 11/1/18 am ddau ddiwrnod;
21. Panel asesu'r Twrnai Cyffredinol ar gyfer penodi cwnsleriaid ieuaf i Banel Cwnsleriaid Trysorlys Rhanbarthol y Twrnai Cyffredinol yn Llundain ar 15/2/18;
22. Y seremoni ar gyfer pedwar sidanwr y Gylchdaith yn y Llysoedd Barn Brenhinol ar 26/2/18;
23. Y seremoni groesawu ar gyfer sidanwyr newydd y Gylchdaith (gydag aelodau eraill o bwyllgor rheoli'r Gylchdaith) yn Llys y Goron Caerdydd ar 1/3/18.

ATODIAD C

Mae digwyddiadau cymdeithasol/ciniawau'r Gylchdaith wedi'u cynnal ers 1/1/17:-

1. Y tri digwyddiad cymdeithasol 'anffurfiol' llwyddiannus a gynhaliwyd yng Nghaerdydd, Caer ac Abertawe yn ystod tymor agoriadol 2017. Diolch yn fawr i'r tri bargyfreithiwr ieuaf a drefnodd y digwyddiadau hyn;
2. Cinio'r Gylchdaith yng Nghastell Caerdydd ym mis Mai 2017 i ddathlu penodiad Hickinbottom AU i'r Llys Apêl a thair blynedd ers i Paul Lewis ddod yn arweinydd. Diolch unwaith eto i Caroline Rees CF am helpu yn y cyfarfod diwethaf i drefnu'r cinio hwnnw gyda fi yn absenoldeb annisgwyl Dee;
3. Cymerodd sawl aelod o'r Gylchdaith ran yng Nghinio Mawreddog Cylchdaith y Gorllewin yn Neuadd Fawr Caer-wynt ar 7/7/17 a'r gystadleuaeth griced rhwng Cylchdeithiau ar 8/7/17;
4. Cinio'r Gylchdaith yn Ysbyty Gray ym mis Tachwedd 2017;
5. Cinio'r Gylchdaith yn y 'Gyfnewidfa Lo' i ddathlu penodiad yr Arglwydd Lloyd-Jones i'r Goruchaf Lys a diwedd/dechrau Llywyddiaeth Nicola Davies/Picken UU;
6. Chwaraeodd y Gylchdaith (gyda chymorth Abi) ran hollbwysig yn y gwaith o drefnu'r cynio ymddeol cyfunol llwyddiannus a gynhaliwyd yn y Senedd ar gyfer yr Arglwydd Thomas o Gwmgiëdd ym mis Hydref 2017;
7. Cynhaliodd y Bar seminar/noson gymdeithasol ar Hawliau Dynol, a ddenodd lawer o bobl, ym Mhrifysgol Abertawe ar 19/4/18.